Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd

**Heol Woodland**
**Castell-nedd**
**SA11 3AL**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 424 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 287 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 73 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 4.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 34.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 28/02/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/03/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

**a.** Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Ers ei phenodiad, mae pennaeth gweithredol Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn gweithio'n ddiwyd gydag arweinwyr i adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chynhaliol i ddisgyblion. Mae eu hadnabyddiaeth o'r disgyblion yn dda ac maent yn datblygu perthynas waith ofalgar a diogel wrth iddynt eu cefnogi i ddysgu.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel o'r staff ac yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n briodol trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am les y staff a'r disgyblion. Mae athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu. Mae'r gofal a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder.

Mae gan athrawon adnabyddiaeth dda o ddiddordebau'r disgyblion ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddarparu ystod o weithgareddau diddorol a chyffrous sy'n ennyn brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion. Er hynny, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol i ddatblygu eu medrau'n addas mewn ystod gyfoethog o weithgareddau. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn cydweithio'n dda i ddarparu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n eu hysbrydoli i ymchwilio a darganfod yn annibynnol. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae ychydig o athrawon yn gor-arwain y dysgu sy'n cyfyngu disgyblion i wneud penderfyniadau am beth i'w gyflwyno yn eu gwaith a sut.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn ymfalchïo yn eu hardal leol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn cydweithio'n dda. Yn gyffredinol, maent yn mwynhau defnyddio eu medrau i fod yn ddysgwyr brwdfrydig a chreadigol, er enghraifft mewn gweithgareddau digidol, celf a chelfyddydau mynegiannol. Er bod medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn datblygu'n gyson, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi'r mwyafrif i ddatblygu a chymhwyso'r medrau hyn yn ddigon effeithiol. Maent yn datblygu medrau corfforol da yn gyson ar draws y cwricwlwm.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion

A2 Darparu gweithgareddau sy'n sicrhau her gyson i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau sy’n cyfateb i’r hyn sy’n ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion o’u cyfnod datblygu. Er bod y rhan fwyaf ohonynt yn newydd i’r Gymraeg, maent yn caffael yr iaith yn gyflym ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llafar o’u mannau cychwyn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a’r rhai sy’n gymwys i dderbyn prydau am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau gwrando a siarad yn dda. Maent yn mwynhau ymarfer y Gymraeg trwy ystod o brofiadau dysgu a chwarae buddiol. Maent yn ymuno’n frwdfrydig mewn sesiynau canu a chyfleoedd i ddweud storïau ar y cyd â’u cyfoedion, er enghraifft wrth ail-ddweud chwedl Parc y Gnoll, wrth ymweld ag adfeilion cyfagos. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn siarad yn fedrus yn y ddwy iaith gan wrando ar, ac ymateb i, safbwyntiau ei gilydd yn aeddfed.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Yn fuan ar ôl dechrau’r ysgol, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn adnabod siâp eu henwau yn llwyddiannus wrth gofrestru ar ddechrau bob sesiwn. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio strategaethau ffoneg yn gadarn i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir, gan wneud synnwyr o’r testun. Mae’r disgyblion sy’n ddarllenwyr rhugl yn darllen ar goedd yn effeithiol, gan ddechrau defnyddio goslef llais yn bwrpasol i greu naws a chadw sylw'r gwrandäwr. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn darllen yn gynyddol hyderus gan ddangos rhuglder a chywirdeb wrth drafod gwahanol destunau.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn gadarn trwy greu marciau yn fedrus mewn ystod o ffurfiau. Wrth iddynt aeddfedu, maent yn adeiladu ar eu medrau’n briodol gan ddefnyddio brawddegau byr ac yn defnyddio atalnodi syml i gyfleu ystyr mewn ystod addas o ffurfiau. Mae llawer o ddisgyblion Blynyddoedd 3 i 6 yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n addas yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ysgrifennu dadl dros gadw enwau lleoliadau yn Gymraeg. Er eu bod yn dangos gafael briodol ar gystrawen, sillafu ac atalnodi elfennol wrth ysgrifennu mewn ystod gyfyng o ffurfiau, nid ydynt yn adeiladu ar y medrau hyn yn ddigon cadarn er mwyn ysgrifennu at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu medrau ysgrifennu sy’n cyfateb i’w gallu a’u cam datblygiad yn ddigon effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol, gan gynnwys cymhwyso eu medrau rhif yn addas i ddatrys problemau mewn

gwahanol gyd-destunau. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan fwyafrif ddealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif hyd at 100 ac maent yn defnyddio'u medrau'n gynyddol hyderus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth adnabod gwahanol ddulliau i wneud cyfanswm gan ddefnyddio darnau arian gwahanol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau'n briodol. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio'u medrau rhif a'u gwybodaeth am unedau mesur safonol i bwyso cynhwysion i bobi bara mewn siâp draenogod, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth o rif yn addas, er enghraifft wrth ddadansoddi data am  nifer y siaradwyr Cymraeg sydd ym mhob sir yng Nghymru. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau'n gynyddol ar draws yr ysgol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth greu animeiddiad am stori Santes Dwynwen. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn cyfuno'u medrau digidol yn llwyddiannus i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu llyfr amlgyfrwng i gofnodi arbrawf gwyddonol, a chreu basdata i drefnu ac adalw gwybodaeth am nodweddion offer digidol.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth arbrofi ag amrywiaeth o offer marcio i greu delweddau sy'n cynrychioli'r byd o'u cwmpas. Mae'r rhan fwyaf yn adeiladu'n briodol ar eu medrau gan ddangos cywirdeb a chreadigrwydd wrth efelychu arddulliau artistiaid Cymreig. Ar frig yr ysgol, maent yn defnyddio'u medrau'n effeithiol i gyfansoddi darnau o gerddoriaeth ddigidol i gynrychioli arch-arwr o Gymru, ac i greu stori ffuglen 'Dani'r Ddraig' o dan arweiniad awdur enwog lleol.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol yn yr ardal allanol. Maent yn hyderus wrth reoli beiciau, yn cymryd risg wrth ddringo'n ofalus wrth gydbwyso ar offer ac yn fedrus wrth adeiladu yn yr ardal goedwig. Mae disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau hyn wrth symud drwy'r ysgol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 4 ddatblygu eu medrau dawnsio gwerin. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol a phrofiadau ysgogol yn yr awyr agored, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hagweddau at gadw'n heini.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'i chymuned ofalgar a chynhwysol. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion ac yn groesawgar iawn tuag at ymwelwyr. Maent yn gwerthfawrogi'r gofal maent yn ei gael o fewn amgylchedd ddysgu gynhwysol ac ysgogol. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn aeddfed tuag at eraill ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o werthoedd yr ysgol, sef 'Cymreictod, Cymuned a Charedigrwydd'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cydweithio da o oedran cynnar gan ddangos parch a chefnogaeth tuag at gyfraniadau ei gilydd. Wrth ddechrau'r

ysgol, maent yn cydweithio'n dda i ddatrys problemau, er enghraifft wrth iddynt gasglu dŵr o bibell er mwyn ei ychwanegu at uwd wrth chwarae'n annibynnol. At ei gilydd, maent yn adeiladu'n addas ar y medrau hyn wrth iddynt ddatblygu drwy'r ysgol.

Mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i ofalu am y byd o'u cwmpas ac yn ymwybodol o sut mae'r ddynoliaeth yn cael effaith ar gynhesu byd eang. Wrth iddynt ddatblygu drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau gydag eraill yn dda, ac i ddangos empathi. Er enghraifft, maent yn darparu gwisg ysgol i ddisgyblion bregus yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o ddulliau cadw'n ddiogel ar lein. Maent yn deall pwysigrwydd diet cytbwys a'r angen i gadw'r corff a'r meddwl yn iach.

Mae llais disgyblion yn cael lle priodol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae bron bob un yn gytûn bod oedolion yn gwrando ar eu barn ac yn ei ystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, wrth iddynt gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu mewn perthynas â'r gweithgareddau tymhorol.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol, yn ystod gweithgareddau, gwasanaethau torfol ac yn ystod amseroedd egwyl. Mewn achosion lle mae ychydig iawn o ddisgyblion yn profi anawsterau ymddygiadol, maent yn datblygu dulliau i'w helpu i leihau'r effaith ar eu hunain ac eraill. Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i fewnbwn oedolion ac yn datblygu dealltwriaeth briodol o ddisgwyliadau ymddygiad cymdeithasol derbyniol.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu'n gynhyrchiol i weithgareddau dysgu. Mae llawer yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar athrawon a chynorthwywyr wrth iddynt ddysgu yn eu tasgau. Maent yn dangos parodrwydd i ymateb i sylwadau a gynigir iddynt ar lafar er mwyn gwella eu gwaith. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder wrth ymateb i ddulliau cytûn wrth ymateb i'w cyflawniadau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae arweinwyr a staff wedi gweithio gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i ffurfio gweledigaeth a dylunio cwricwlwm sy'n berthnasol iawn i'r gymuned. Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr berthynas waith gynhyrchiol â'r disgyblion. Mae staff yn trin y disgyblion yn gyfartal a gyda pharch.

Mae gan staff ddealltwriaeth drwyadl o anghenion a diddordebau disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fwriadus i drefnu a darparu profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion. Mae athrawon yn diwallu anghenion disgyblion yn dda, ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd cadarn. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn cefnogi'r dysgu'n fedrus trwy ystod addas o addysgu penodol a chyfleoedd i ddisgyblion chwarae a dysgu trwy brofiadau. Ar frig yr ysgol, darperir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau mewn nifer o brofiadau diddorol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn sicrhau'r her briodol i gefnogi'r ystod lawn o ddisgyblion wneud y cynnydd gorau posibl yn eu medrau ar draws y cwricwlwm. Ar frig yr ysgol, rhoddir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau amlieithog trwy ddarparu sesiynau

dysgu Ffrangeg sy'n ehangu eu gorwelion ac yn rhoi hyder iddynt wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r safle i greu amgylcheddau dysgu buddiol y tu fewn a thu allan. Er enghraifft, mae'r dosbarthiadau dysgu sylfaen yn cynnig amgylcheddau ysgogol sy'n annog disgyblion i ymchwilio, arbrofi a darganfod drostynt eu hunain. Mae staff yn gweithredu egwyddorion dysgu sylfaen yn llwyddiannus sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn fedrus. Er hyn, mae ychydig o athrawon y disgyblion hynaf yn dueddol o or-arwain y dysgu yn rhy aml sy'n cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Ar draws yr ysgol, defnyddir ystod addas o ddulliau addysgu sy'n briodol i gam datblygiad y disgybl. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu gweithgareddau sy'n cefnogi'r mwyafrif o ddisgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn ddigon effeithiol.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw ymrwymiad athrawon a chynorthwywyr i ddatblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion. Maent yn arddel iaith raenus yn gyson gan annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith ac i ymfalchïo yn eu Cymreictod. Mae'r cyfleoedd i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig a hanes a diwylliant Cymru yn rhan amlwg o waith yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes Lady Mackworth a brwydr Gwynfor Evans dros yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi'r disgyblion i werthfawrogi eu hardal leol a hanes a thraddodiadau Cymru.

Mae staff yn holi'r disgyblion yn fedrus i atgyfnerthu eu dysgu a datblygu eu medrau meddwl ymhellach. Maent yn darparu adborth llafar buddiol i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i wybod beth maent yn ei wneud yn dda a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. Yn ogystal, maent yn annog disgyblion i werthuso eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn fedrus, er enghraifft trwy drafod a gwella'u cyfansoddiadau mewn sesiwn gerddoriaeth ar frig yr ysgol. At ei gilydd, mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o ddulliau marcio cyson i gynnig adborth addas i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith.

Rhoddir cyfleoedd cyfoethog i'r holl ddisgyblion elwa'n sylweddol o brofiadau gwerthfawr yn y gymuned. Er enghraifft, mae athrawon yn trefnu ymweliadau wythnosol â llyfrgell y dref, yn gwneud defnydd ardderchog o Barc y Gnoll fel adnodd dysgu ac yn elwa o'u cysylltiadau â chaffi lleol. Maent yn manteisio'n dda ar gyfleusterau bowlio a thenis cyfagos i ddatblygu medrau chwaraeon y disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, cynhwysol a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, a chymdeithasol bron bob disgybl yn hynod effeithiol. Mae gan y pennaeth a'r staff addysgu adnabyddiaeth dda o bob plentyn ac maent yn anelu'n angerddol at ddiwallu eu hanghenion lles unigol. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau buddiol i sicrhau bod disgyblion yn barod yn emosiynol i ddysgu. Mae hyn yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol.

Mae staff yn rhoi pwyslais cyson ar hybu ymddygiad cadarnhaol disgyblion. Caiff hyn ei amlygu yn ymddygiad cadarnhaol bron bob disgybl. Yn ogystal, caiff hyn effaith gadarnhaol ar yr ychydig iawn o ddisgyblion sy'n wynebu anawsterau ymddygiadol.

Mae staff yn defnyddio dulliau addas ac amrywiol sy’n sicrhau bod disgyblion yn dechrau’r diwrnod yn barod i ddysgu. Mae athrawon a’r cymhorthyddion yn neilltuo amser yn ddyddiol i wrando ar a siarad â’r disgyblion ac yn cynnig cyfleoedd cyson iddynt drafod eu teimladau, yn arbennig yn ystod cyfnodau cofrestru. Mae hyn yn nodwedd gref o ddarpariaeth gynhaliol yr ysgol.

Mae hyrwyddo cyfle cyfartal ymhob agwedd o’r ddarpariaeth yn elfen ganolog o weledigaeth arweinwyr yr ysgol. Rhoddir pwyslais amlwg ar hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth ac empathi, a sicrheir bod cyfraniad pawb yr un mor bwysig â’i gilydd. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at baratoi’r disgyblion fel dinasyddion cyfrifol y dyfodol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i bob disgybl ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at yr ysgol a’r gymuned ehangach. Mae cynnwys disgyblion sydd ag ADY ymhob agwedd o waith a bywyd yr ysgol yn gryfder, er enghraifft mewn gwasanaethau boreol ac wrth ymweld â lleolidau yn y gymuned.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi sefydlu systemau cadarn i ddatblygu dealltwriaeth y staff o sut i gefnogi disgyblion ADY. Maent wedi creu posteri gwybodaeth sy’n cael eu defnyddio’n gyson gan staff i sicrhau eu dealltwriaeth o’u disgwyliadau. Maent yn olrhain y ddarpariaeth yn briodol ac wedi sefydlu arfer o gynnal trafodaethau tymhorol er mwyn rhannu cyrhaeddiad disgyblion penodol. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, mae staff yn gwneud addasiadu priodol i’r gynhaliaeth sy’n eu galluogi i fodloni anghenion unigolion yn effeithiol.

Mae’r gefnogaeth sy’n cael ei chynnig i ddisgyblion a’u teuluoedd yn dda. Mae athrawon yn ystyried anghenion y teulu cyfan wrth drafod cefnogaeth i ddisgyblion, ac maent yn cefnogi’r rhieni yn dda er mwyn iddynt helpu eu plant gartref. Mae athrawon wedi datblygu eu dealltwriaeth o anghenion gwahanol ddisgyblion trwy gwblhau gwaith ymchwil perthnasol, ac wedi rhannu eu canfyddiadau â gweddill y staff. Mae hyn yn hwyluso’r broses o drosglwyddo gwybodaeth allweddol am ddisgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu sesiynau cydaddoli o ansawdd uchel ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu dealltwriaeth o werthoedd, hiliaeth, cyfiawnder, tegwch a chredoau eraill yn ystod cyfnodau Munudau Myfyrio. Trwy hyn, mae’r ysgol yn paratoi’r disgyblion i fod yn ddinasyddion deallus y byd ehangach yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a’r diwylliant Cymreig yn hynod effeithiol. Yn ddiweddar, maent wedi sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu balchder at eu hunaniaeth trwy ddysgu am chwedl Parc y Gnoll a Chaer Rhufeinig yn Nhŵr y Felin. Yn ogystal, mae’r ysgol yn rhoi cyfleoedd i gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau, fel unigolion ac mewn grwpiau. Er enghraifft, darperir cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol, eisteddfodau’r Urdd, a chanu gyda chôr lleol mewn cyngerdd Gŵyl Ddewi.

Mae darpariaeth yr ysgol i wella presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Maent yn gwrando ar lais y disgybl yn effeithiol i drefnu dulliau o wobrwyo dosbarthiadau am eu presenoldeb cyson. Mae diogelwch adeiladau a safle’r ysgol yn gyson dda. Mae

trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth gweithredol a'r dirprwy bennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r ysgol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion, eu teuluoedd a staff yn rhan ganolog o fywyd yr ysgol. Maent yn rhannu'r weledigaeth honno â'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus. Mae'r nod i gynnig cyfle i bob plentyn i lwyddo yn greiddiol i holl weithgarwch yr ysgol.

Mae systemau arweinyddiaeth hylaw wedi'u sefydlu ar draws yr ysgol ac mae aelodau'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n effeithiol ac yn cefnogi'r pennaeth gweithredol yn fwriadus. Mae arweinwyr yn cynllunio'n synhwyrol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau addysg, gan gynnwys cysylltu profiadau dysgu ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn cael eu hannog i arbrofi â dulliau addysgeg ac maent yn llwyddo i weithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn effeithiol, sy'n datblygu balchder y disgyblion at eu hiaith, eu hunaniaeth a'u treftadaeth.

Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn seiliedig ar amrediad synhwyrol o dystiolaeth uniongyrchol ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae trefniadau addas yn bodoli i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a chymryd camau i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi cynnydd disgyblion, craffu ar waith ac arsylwi sesiynau dysgu. Mae medrau staff i gymryd rhan yn y broses monitro, gwerthuso a chynllunio'r camau nesaf i wella yn datblygu'n dda. Yn gyffredinol, maent yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i'r afael â mwyafrif y gwelliannau'n fwriadus.

Cynhelir sesiynau buddiol i staff drefnu a gweithredu gweithgareddau er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau cytûn. Mae athrawon sydd â chyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad penodol yn datblygu eu dealltwriaeth o'r gofynion ac yn rhannu'r wybodaeth hon yn addas gyda gweddill y staff. Mae cymorthyddion yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n gyson at wella lles, safonau dysgu a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar les a chynnydd disgyblion. Mae'r aelodau'n rhannu cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol a gweithgareddau i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion. Maent yn herio'r ysgol ar faterion addas yn synhwyrol ac yn cyfrannu'n briodol i lunio gweithdrefnau clir i wella. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwariant yn cysylltu'n uniongyrchol â chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth gweithredol a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion.

Maent yn cysylltu’r gwariant yn briodol â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ac yn monitro’r cyllid yn ofalus i sicrhau’r defnydd gorau ohono. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion sy’n cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Nodwedd gadarn arall yr arweinyddiaeth yw’r cyfleoedd pwrpasol i’r staff cyfan ddatblygu'n broffesiynol. Mae trefniadau rheoli perfformiad athrawon yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn effeithiol ac yn cysylltu â blaenoriaethau’r ysgol. Mae arweinwyr yn cefnogi athrawon i gynnal ymchwil ar agweddau o’u harferion er mwyn adnabod effaith ar gynnydd disgyblion. Mae cyfleoedd i gynorthwywyr elwa o gyfarfodydd proffesiynol gydag arweinwyr i drafod eu llwyddiannau a’u meysydd datblygu unigol. Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â’r ysgolion cynradd lleol a’r ysgol uwchradd i ddatblygu dulliau asesu ar gyfer dysgu ar y cyd a rhannu arfer am effeithiolrwydd rhaglenni gloywi iaith, er enghraifft.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae staff yn cyfathrebu’n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd. O ganlyniad i’r holl agweddau cadarnhaol hyn, caiff diwylliant iach o gydweithio ei hyrwyddo sydd yn ei dro yn cyfrannu'n sylweddol at ethos croesawgar a chynnes yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2024